Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Corris
# Y Caban
# Ysgol Gynradd Dyffryn Dulas
# Corris
# Machynlleth
# Powys
# SY20 9TQ

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2013**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 27/03/2013**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Corris yn dyddio'n ôl i fis Medi 1972 ac wedi dathlu ei 40fed pen-blwydd llynedd. Mae'r Cylch yn cyfarfod mewn caban a adeiladwyd yn bwrpasol ar dir Ysgol Gynradd Dyffryn Dulas ym mhentref Corris. Pentref bach gwledig yw Corris tua 6 milltir i'r gogledd o Fachynlleth ar y ffordd A487 i Ddolgellau.

Mae'r plant sy'n mynychu'r Cylch yn dod o gymuned wledig eang sy`n cynnwys pentrefi Tal-y-Llyn, Aberllefenni, Bont-ar-Ddyfi a Pennal. Mae hon yn gymuned wledig, ond nid amaethyddol, gyda`r rhan fwyaf o`r plant yn byw mewn pentrefi bach.

Mae`r teuluoedd yn siarad Saesneg yn bennaf gan gynnwys nifer fawr o deuluoedd sydd wedi symud i'r ardal. O ganlyniad mae'r rhan fwyaf o'r plant sy'n mynychu'r Cylch yn dod o gefndiroedd Saesneg eu hiaith. Nid ydynt yn cael eu hystyried fel plant o gartrefi o dan anfantais.

Mae'r Cylch wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSW) i ddarparu ar gyfer uchafswm o 18 o blant mewn unrhyw sesiwn. Ar hyn o bryd mae 16 o blant ar y gofrestr. Mae tri o blant 3 oed yn cael eu hariannu. Mae'r Cylch yn gweithredu ar dri diwrnod yr wythnos ar ddydd Mawrth 8:45y.b. - 11:45 y.b., Dydd Mercher 11:15y.b. -1:15y.p. a 13:15y.p. - 15:15y.p., ac ar ddydd Iau 8:45y.b. - 11:45y.b. Mae`r amserau hyn yn cydymffurfio â dymuniadau'r rhieni.

Mae`r plant yn dechrau yn y Cylch pan fyddant yn 2½ oed ac yn mynychu'r ysgol gynradd leol yn rhan amser o'r mis Medi sy`n dilyn eu penblwydd yn dair oed (ac yn mynychu'r Cylch ar brynhawn dydd Mercher) ac yn llawn amser ym mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 4 oed.

Mae rhai o'r plant yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig - un rhiant fel arfer. Does neb wedi`i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol, er bod y Cylch yn gallu darparu ar gyfer plant o'r fath. Mae'r Cylch yn derbyn Grant y Blynyddoedd Cynnar gan yr Awdurdod Lleol.

Arolygwyd y Cylch gan AGGCC yn 2012 a gan Estyn yn 2006. Ers arolygiad diwethaf Estyn, mae`r Cylch wedi`i leoli yn y caban symudol.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae Cylch Meithrin Corris yn leoliad da oherwydd:

- mae`r holl blant yn gwneud cynnydd da;
- mae`r holl blant yn cael gofal a chefnogaeth dda;
- mae`r plant yn cael profiadau dysgu eang a diddorol;
- y ddarpariaeth ar gyfer datblygu`r iaith Gymraeg;
- yr amgylchedd dysgu da, gan gynnwys y cyfleusterau tu allan;
- yr arweinyddiaeth a rheolaeth dda;
- mae`r bartneriaeth gyda rhieni wedi`i sefydlu`n dda.

### Rhagolygon gwella

***Prif arfarniad***

Mae`r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd:

- mae`r holl staff yn gweithio gyda'i gilydd er lles y plant;
- hanes o sicrhau gwelliant;
- bod y staff yn agored i newidiadau;
- cefnogaeth yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin.

## Argymhellion

Mae angen i'r lleoliad:

- barhau i ddarparu addysg o ansawdd da ar gyfer y plant;
- asesu plant o ran datblygiad medrau;
- darparu tasgau mwy gwahaniaethol ar gyfer y plant â galluoedd gwahanol.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natbygliad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae`r ymarferwyr yn cynllunio ar y cyd ac yn cynhyrchu cwricwlwm a gweithgareddau dysgu sy'n ennyn diddordeb yr holl blant, beth bynnag yw eu hoed neu eu gallu. Mae`r profiadau dysgu yn adeiladu ar ddiddordebau plant ac yn rhoi gweithgareddau arloesol iddynt. Mae`r profiadau dysgu yn cael eu cynllunio'n dda er mwyn galluogi plant i wneud cynnydd tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae dysgu`r plant yn adeiladu ar eu gwybodaeth, dealltwriaeth a`u medrau presennol.

Mae`r gweithgareddau dyddiol yn amrywiol iawn ac yn galluogi plant i ffurfio perthynas drwy weithio gyda'i gilydd mewn grwpiau bach sy`n cynnwys y staff mewn rôl gefnogol. Mae`r plant yn parchu ei gilydd ac yn cael eu parchu`n dda gan oedolion. Mae'r ethos cartrefol, cefnogol sy`n amlwg yn y Cylch yn llwyddo i ddatblygu hunan hyder y plant sy`n eu galluogi i ddod yn ddysgwyr annibynnol ac i ddilyn eu diddordebau eu hunain.

Mae`r profiadau dysgu yn darparu cyfleoedd da iawn i ddatblygu eu medrau corfforol a chreadigol trwy weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. Mae plant hefyd yn tyfu bylbiau a hadau ac yn gofalu am blanhigion sy'n tyfu. Mae ailgylchu wedi`i sefydlu'n dda ac mae plant yn dechrau deall pwysigrwydd datblygiad cynaliadwy. Mae`r plant yn caffael sgiliau a fydd yn eu galluogi i ddod yn ddysgwyr cymwys. Darperir cyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau meddwl ac mae`r staff yn defnyddio cwestiynu yn dda i annog y plant i gymryd rhan.

Mae'r Cylch yn weithgar iawn o ran darparu cyfleoedd i blant ddysgu`r iaith Gymraeg. Caiff y plant eu trochi yn yr iaith oherwydd Cymraeg yw iaith y cyfarwyddiadau a`r cyfathrebu. Mae'r traddodiadau a dathliadau o ddiwylliant Cymru yn cael amlygrwydd, fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda iawn o ddatblygiad plant trwy eu profiad a chyrsiau datblygiad proffesiynol. Maent yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen.

Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o`r holl blant beth bynnag yw eu cefndir neu eu gallu. Mae'r staff hefyd yn ymwybodol o bryd i adael i blant weithio'n annibynnol, ond yn sensitif i`r cyfnodau mae angen cymorth arnynt. Mae `r Cylch yn llwyddo i herio

plant ac yn sicrhau cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u cyfeirio gan oedolion. Mae'r staff yn fodelau rôl da, ac yn defnyddio cwestiynu yn dda i ddatblygu medrau meddwl y plant. Dyma amgylchedd trefnus a thawel lle mae ymddygiad plant yn dda iawn. Mae'r holl ymarferwyr yn cymryd rhan wrth gynllunio ac maent yn gweithio'n dda fel tîm er lles y plant.

Mae`r plant yn cael eu hasesu'n rheolaidd ac mae`r arsylwadau yn cael eu cofnodi. Mae hwn yn fesur da o gynnydd plant. Mae`r staff, yn y lleoliad bach hwn, yn ymwybodol iawn o allu plant ac yn defnyddio eu gwybodaeth i ddatblygu medrau meddwl plant. Ar y cyfan, fodd bynnag, nid yw`r asesu bob amser yn canolbwyntio ar gyflawniad y plant o ran eu medrau, ac nid yw`r gweithgareddau yn canolbwyntio digon ar y camau nesaf yn nysgu plant unigol. Yn yr achosion hyn nid yw`r gweithgareddau bob amser yn gwahaniaethu'n ddigonol i herio pob plentyn, beth bynnag yw eu gallu.

Mae`r rhieni yn adrodd eu bod yn ymwybodol iawn o gynnydd eu plant a'r hyn y gallant ei wneud i'w helpu i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu iechyd a lles plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.

Mae gan bob plentyn agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu ac yn dangos ymddygiad da iawn. Mae'r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn llwyddo i feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, parch a chwarae teg. Mae`r plant yn deall y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy`n gywir ac anghywir ac yn gweithredu'n unol â hynny. Mae pob plentyn yn derbyn y cyfrifoldeb i gymryd eu tro wrth helpu gyda byrbrydau. Mae`r rheolau ymddygiad wedi eu sefydlu'n dda ac mae`r plant yn dangos goddefgarwch ac aeddfedrwydd cynyddol. Mae`r plant yn rhan annatod o'r Cylch ac yn elwa o'i ethos cartrefol a chefnogol.

Mae gan y Cylch gysylltiadau da â`r gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau arbenigol. Mae`r plant ag anghenion dysgu ychwanegol wedi cael eu cefnogi'n dda yn y gorffennol. Nid oes unrhyw blentyn ar hyn o bryd yn y Cylch wedi cael ei nodi fel un ag anghenion o'r fath.

Mae gan y Cylch bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith o ran diogelu plant. Yr arweinydd yw `r uwch aelod o staff sy'n gyfrifol am ddelio ag amddiffyn plant a materion diogelu. Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant diweddar a pherthnasol.

Mae gweithdrefnau ar waith i adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r Cylch yn darparu plant ag amgylchedd diogel, cefnogol lle caiff pob plentyn ei werthfawrogi a'i barchu. Ar y cyfan, mae'r lleoliad yn gwbl gynhwysol, gan roi hawl gyfartal i'r holl weithgareddau i bob plentyn. Mae agwedd oddefgar yn bodoli, ac mae

hyn yn sicrhau bod yr holl blant (a staff) yn rhydd oddi wrth unrhyw fath o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol.

Mae'r lleoliad yn medru darparu cyfleusterau da ar gyfer unrhyw blentyn sydd ag anabledd corfforol, (fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol).

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth dda i adborth gan rieni. Mae gweithdrefn gwyno ar waith ond nid yw wedi cael ei ddefnyddio.

Mae'r Cylch wedi`i staffio yn hael. Mae gan yr holl staff gymwysterau perthnasol a phriodol ac mae ganddynt brofiad sylweddol o weithio gyda phlant ifanc. Mae gan y Cylch adnoddau da i gwrdd ag anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion penodol y plant.

Mae'r lleoliad yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol. Mae'r ystafell addysgu wedi`i gwahaniaethu'n dda i ardaloedd o weithgareddau yn unol ag athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Mae'r tu allan yn hygyrch i'r plant yn uniongyrchol ac yn darparu amgylchedd dysgu deniadol. Mae "tŷ-eco" neu "dŷ-stori" yn ychwanegiad diddorol i ystod dda o adnoddau sydd ar gael i'r plant. Ar y cyfan, mae`r amgylchedd y tu allan yn gwella'r cyfleusterau yn y lleoliad.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinyddiaeth yn rhoi synnwyr clir o gyfeiriad i`r Cylch ac ymdeimlad o bwrpas ac yn canolbwyntio ar ddarparu'r profiadau dysgu gorau ar gyfer y plant. Mae'r staff yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd fel tîm ac yn rhannu gwerthoedd, nodau ac amcanion cyffredin. Maent i gyd yn cymryd rhan mewn cynllunio strategol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r plant. Mae`r staff yn adnabod eu rolau a'u cyfrifoldebau ac maent bob amser yn weithgar wrth gefnogi plant. Mae ethos cadarnhaol yn treiddio drwy'r Cylch.

Pan fydd angen, mae sefydlu`n cael ei ddefnyddio i gyflwyno staff i waith y Cylch ond mae'r staff presennol wedi gweithio gyda'i gilydd am beth amser. Ymdrinir â gwerthuso yn rheolaidd.

Ceir cysylltiadau da iawn gyda'r rhieni sy'n cael eu hannog i gefnogi dysgu eu plant, yn enwedig yn natblygiad yr iaith Gymraeg.

Mae'r pwyllgor rheoli yn deall eu rolau ac yn cael eu hysbysu'n dda am berfformiad y Cylch. Maent yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol.

Mae'r Cylch wedi mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol fel gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r Cylch wedi bod yn weithgar wrth wella ansawdd y ddarpariaeth dros y blynyddoedd diwethaf ers symud i'w lleoliad newydd. Mae`r cymorth ariannol wedi cael ei ddefnyddio'n dda i ddatblygu lleoliad sy'n ddeniadol gydag adnoddau da i ddiwallu anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Pan mae cyfleoedd wedi codi, mae'r lleoliad wedi blaenoriaethu meysydd i'w datblygu, a gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

Mae'r ddogfen hunanarfarnu gyfredol yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae`r meysydd i`w datblygu yn cael eu blaenoriaethu a`r strategaethau ar gyfer gwella yn cael eu nodi ac yn ffocysu'n dda ar sicrhau enillion cadarnhaol ar gyfer y plant.

Mae'r holl ymarferwyr wedi manteisio ar gyrsiau hyfforddiant proffesiynol ac mae'r rhain wedi cael effaith dda ar ddysgu a lles plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae cysylltiadau gwerth chweil ac agos wedi eu sefydlu gyda rhieni sydd wedi`u selio ar ymddiriedaeth a cyfathrebu hawdd. Mae cysylltiadau da yn eu lle gyda'r ysgol gynradd ac mae hyn yn hwyluso trosglwyddiad y plant. Mae`r plant tair oed yn yr ysgol neu rhan amser yn yr ysgol yn dychwelyd i`r Cylch am un prynhawn yr wythnos.

Mae'r lleoliad yn manteisio o gefnogaeth a chyngor gan athro ymgynghorol yr Awdurdod Lleol a'r Mudiad Meithrin.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y Cylch adnoddau da dan do a thu allan. Mae`r adnoddau yn hygyrch ar gyfer y plant ac yn cael eu cynllunio'n dda er mwyn galluogi'r plant i ddatblygu eu medrau ac i gyflawni deilliannau canfyddedig y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r tu allan yn darparu`r plant ag amrywiaeth o ardaloedd i dyfu planhigion, ardalaoedd ar gyfer chwarae corfforol ac ardal o borfa. Mae "tŷ-eco" neu "dŷ-stori" yn ychwanegiad deniadol. Gall plant eistedd yn yr adeilad pren gan gysgodi rhag yr elfennau boed yn law neu haul. Caiff cyfleusterau eu defnyddio'n dda i ddatblygu medrau plant ar draws pob maes dysgu.

Mae'r Cylch yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Daeth deuddeg o atebion i`r holiadur i law.  Gofynnwyd i rieni a gofalwyr ymateb i 16 o ddatganiadau, gan nodi un o bum categori o atebion - "cytuno'n gryf, yn cytuno, anghytuno, anghytuno'n gryf a ddim yn gwybod".

Gellir crynhoi`r ymatebion fel hyn:

Mae mwy na thri chwarter o'r ymatebion yn "cytuno'n gryf" gyda`r datganiadau:

*Rwy`n fodlon â`r lleoliad at ei gilydd.*
*Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn.*
*Cafodd fy mhlentyn help i ymgartrefu'n dda pan oedd yn dechrau yn y lleoliad.*
*Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad.*
*Mae`r plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad.*
*Mae'r addysgu yn dda.*
*Mae'r ymarferwyr yn trin pob plentyn yn deg ac yn dangos parch tuag atynt.*
*Mae fy mhlentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.*
*Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad.*
*Rwy'n teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at y lleoliad gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.*
*Mae fy mhlentyn yn cael ei baratoi/ei pharatoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol.*
*Mae`r lleoliad yn cael ei redeg yn dda.*

Mae mwy na hanner yn "cytuno'n gryf" â`r datganiadau:

*Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol.*
*Rwy`n cael gwybodaeth dda am gynnydd fy mhlentyn.*
*Rwy'n deall gweithdrefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion.*
*Mae ystod dda o weithgareddau gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.*

Nid oedd un o`r ymatebwyr yn "anghytuno" neu "anghytuno'n gryf" gydag unrhyw un o'r datganiadau.

Roedd wyth o'r ymatebwyr hefyd wedi cymryd y cyfle i wneud sylwadau.

Roedd pob un ohonynt yn gadarnhaol iawn a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

*- Pa mor hapus mae`r plant i fynychu.*
*- Pa mor dda mae`r lleoliad yn cael ei redeg.*
*- Cyfraniad y staff wrth ofalu am y plant.*
*- Y gwaith ysgogol a ddarperir ar gyfer y plant.*
*- Rhagoriaeth y Cylch ym mhob agwedd.*
*- Y byrbrydau iach a ddarperir ar gyfer y plant.*
*- Dim cwynion - cyfleuster rhagorol.*

*- Mae'r staff yn wych.*

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Roedd y plant yn siarad am sut maent yn mwynhau dod i'r Cylch – byddent yn hoffi dod bob dydd. Maen nhw`n mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |